OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1232 (Cy. 311)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Fynwy (Trefniadau Etholiadol) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Mehefin 2021 ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol Sir Fynwy. Roedd Adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y wardiau etholiadol o 40 i 39, ond cynyddu nifer y cynghorwyr o 45 i 46.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, gydag addasiadau.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Sir Fynwy ac yn cyflwyno'r Atodlen sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir Fynwy.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 1232 (W. 311)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County of Monmouthshire (Electoral Arrangements) Order 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order implements the recommendations of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission"), which reported in June 2021 on its review of the electoral arrangements for the County of Monmouthshire. The Commission's report proposed a reduction in the number of electoral wards from 40 to 39, but an increase in the number of councillors from 45 to 46.

This Order implements the Commission's recommendations, with modifications.

Article 2 of this Order abolishes the existing electoral arrangements for the County of Monmouthshire and introduces the Schedule, which sets out the new electoral arrangements for the County of Monmouthshire.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 Rhif 1232 (Cy. 311)

# 2021 No. 1232 (W. 311)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## Gorchymyn Sir Fynwy (Trefniadau Etholiadol) 2021

## The County of Monmouthshire (Electoral Arrangements) Order 2021

*Gwnaed* *3 Tachwedd 2021*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

*Made* *3 November 2021*

*Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(**1**), yn unol ag adran 36(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Mehefin 2021 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Fynwy.

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales(**1**) has, in accordance with section 36(5) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013(**2**) ("the 2013 Act"), submitted to the Welsh Ministers a report dated June 2021 containing its recommendations for change and the details of its review of the electoral arrangements for the County of Monmouthshire.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(a) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i'r argymhellion hynny gydag addasiadau.

The Welsh Ministers have, after consideration of the matters referred to and set out in section 37(2)(a) and (c) of the 2013 Act, decided to give effect to those recommendations with modifications.

Yn unol ag adran 37(3) o Ddeddf 2013, mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

In accordance with section 37(3) of the 2013 Act, more than 6 weeks have elapsed since those recommendations were submitted to the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pwerau a roddir gan adran 37(1) o Ddeddf 2013.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of their powers conferred by section 37(1) of the 2013 Act.

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ("Deddf 1972"), ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Mae Deddf 2013 yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2).

(**2**) 2013 dccc 4.

(**1**) The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of, and Schedule 8 to, the Local Government Act 1972 (c. 70) ("the 1972 Act"). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) ("the 2013 Act"). The 2013 Act re-names the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2).

(**2**) 2013 anaw 4.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Fynwy (Trefniadau Etholiadol) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**1**), daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Tachwedd 2021.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(**2**).

(4) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Sir Fynwy;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

**Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Fynwy**

**2.**—(1) Mae wardiau etholiadol Sir Fynwy, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

(2) Mae Sir Fynwy wedi ei rhannu'n 39 o wardiau etholiadol, a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer yr aelodau o'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Title, commencement and interpretation**

**1.**—(1) The title of this Order is the County of Monmouthshire (Electoral Arrangements) Order 2021.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Local Government Area Changes Regulations 1976(**1**), this Order comes into force on 9 November 2021.

(3) For all other purposes, this Order comes into force on the ordinary day of election of councillors in 2022(**2**).

(4) In this Order—

"electoral ward" ("*ward etholiadol*") means any area for which members are elected to Monmouthshire County Council;

words and expressions used in this Order have the same meaning as they have in Part 3 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, except so far as a contrary intention appears.

**Electoral arrangements for the County of Monmouthshire**

**2.**—(1) The electoral wards of the County of Monmouthshire, as they exist immediately before the ordinary day of election of councillors in 2022, are abolished.

(2) The County of Monmouthshire is divided into 39 electoral wards each bearing the English language name listed in column 1 and the Welsh language name listed in column 2 of the Table in the Schedule to this Order.

(3) Each electoral ward comprises the areas specified in relation to that electoral ward in column 3 of the Table in the Schedule to this Order.

(4) The number of members of the council to be elected for each electoral ward is the number specified in column 4 of the Table in the Schedule to this Order.

---

(**1**) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

(**2**) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

(**1**) S.I. 1976/246. Section 74(3) of the 2013 Act provides that these Regulations continue to have effect in relation to orders made under Part 3 of the 2013 Act, as if those orders were made under Part 4 of the 1972 Act.

(**2**) The Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) (Wales) Order 2019 (S.I. 2019/1269 (W. 220)) amends section 26(1) of the 1972 Act to provide that the year in which the ordinary elections of councillors of local authorities shall take place is 2022 instead of 2021.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**).

(5) The provisions in this Order take precedence over any conflicting provision in any previous statutory instrument made under section 58(2) of the Local Government Act 1972(**1**).

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
3 Tachwedd 2021

Minister for Finance and Local Government, one of the Welsh Ministers
3 November 2021

(**1**) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

(**1**) 1972 c. 70; section 58 of the 1972 Act was repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the 2013 Act, subject to savings provisions specified in section 74 of the 2013 Act.

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER AELODAU'R CYNGOR

**Tabl**

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Bulwark and Thornwell | Bulwark a Thornwell | Wardiau Bulwark, Thornwell a Maple Avenue o gymuned Cas-gwent | 2 |
| Caerwent | Caer-went | Cymuned Caer-went | 1 |
| Caldicot Castle | Castell Cil-y-coed | Ward Castell Caldicot o gymuned Caldicot | 1 |
| Caldicot Cross | Croes Cil-y-coed | Ward Caldicot Cross o gymuned Caldicot | 1 |
| Cantref | Cantref | Wardiau Cantref and Llanwenarth Citra o gymuned y Fenni | 1 |
| Chepstow Castle and Larkfield | Castell Cas-gwent a Larkfield | Wardiau Castell Cas-gwent a Larkfield o gymuned Cas-gwent | 2 |
| Croesonen | Croesonnen | Ward Croesonnen o gymuned Llandeilo Bertholau | 1 |
| Crucorney | Crucornau Fawr | Cymunedau Crucornau a Grysmwnt | 1 |
| Devauden | Devauden | Cymuned Devauden a wardiau Llan-gwm a Llan-soe o gymuned Llantrisant Fawr | 1 |
| Dewstow | Llanddewi | Ward Llanddewi o gymuned Caldicot | 1 |
| Drybridge | Drybridge | Ward Drybridge o gymuned Trefynwy | 1 |
| Gobion Fawr | Gobion Fawr | Cymunedau Gobion Fawr a Llan-arth | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Goetre Fawr | Goetre Fawr | Cymuned Goetre Fawr | 1 |
| Grofield | Grofield | Ward Grofield o gymuned y Fenni | 1 |
| Lansdown | Lansdown | Ward Lansdown o gymuned y Fenni | 1 |
| Llanbadoc and Usk | Llanbadog a Brynbuga | Cymunedau Llanbadog a Brynbuga | 2 |
| Llanelly | Llanelli | Cymuned Llanelli | 2 |
| Llanfoist Fawr and Govilon | Llan-ffwyst Fawr a Gofilon | Cymuned Llan-ffwyst Fawr | 2 |
| Llangybi Fawr | Llangybi Fawr | Cymuned Llangybi a wardiau Gwernesni a Llantrisant o gymuned Llantrisant Fawr | 1 |
| Llantilio Crossenny | Llandeilo Gresynni | Cymunedau Ynysgynwraidd a Chastell-gwyn | 1 |
| Magor East with Undy | Dwyrain Magwyr gyda Gwndy | Wardiau Dwyrain Magwyr a Gwndy o gymuned Magwyr gyda Gwndy | 2 |
| Magor West | Gorllewin Magwyr | Ward Gorllewin Magwyr o gymuned Magwyr gyda Gwndy | 1 |
| Mardy | Y Maerdy | Wardiau'r Maerdy, Pantygelli ac Ysgyryd o gymuned Llandeilo Bertholau | 1 |
| Mitchel Troy and Trellech United | Llanfihangel Troddi a Thryleg Unedig | Cymunedau Llanfihangel Troddi a Thryleg Unedig | 2 |
| Mount Pleasant | Mount Pleasant | Ward Mount Pleasant o gymuned Cas-gwent | 1 |
| Osbaston | Osbaston | Ward Osbaston o gymuned Trefynwy | 1 |
| Overmonnow | Overmonnow | Ward Overmonnow o gymuned Trefynwy | 1 |
| Park | Y Parc | Ward y Parc o gymuned y Fenni | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pen Y Fal | Pen-y-fâl | Ward Pen-y-fâl o gymuned y Fenni | 1 |
| Portskewett | Porthsgiwed | Cymuned Porth Sgiwed | 1 |
| Raglan | Rhaglan | Cymuned Rhaglan | 1 |
| Rogiet | Rogiet | Cymuned Rogiet | 1 |
| Severn | Hafren | Wardiau Hafren a The Village o gymuned Caldicot | 1 |
| Shirenewton | Drenewydd Gelli-farch | Cymunedau Matharn a Drenewydd Gelli-farch | 1 |
| St Arvans | Llanarfan | Cymunedau St Arvans a Dyffryn Gwy | 1 |
| St Kingsmark | Llangynfarch | Ward St Kingsmark o gymuned Cas-gwent | 1 |
| Town | Y Dref | Ward y Dref o gymuned Trefynwy | 1 |
| West End | West End | Ward West End o gymuned Caldicot | 1 |
| Wyesham | Wyesham | Ward Wyesham o gymuned Trefynwy | 1 |

©ⓗHawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE

Article 2

## NAMES AND AREAS OF ELECTORAL WARDS AND NUMBER OF MEMBERS OF THE COUNCIL

**Table**

| *Column (1)* | *Column (2)* | *Column (3)* | *Column (4)* |
|---|---|---|---|
| *English language name of electoral ward* | *Welsh language name of electoral ward* | *Area of electoral ward* | *Number of members of the council* |
| Bulwark and Thornwell | Bulwark a Thornwell | The Bulwark, Thornwell and Maple Avenue wards of the community of Chepstow | 2 |
| Caerwent | Caer-went | The community of Caerwent | 1 |
| Caldicot Castle | Castell Cil-y-coed | The Caldicot Castle ward of the community of Caldicot | 1 |
| Caldicot Cross | Croes Cil-y-coed | The Caldicot Cross ward of the community of Caldicot | 1 |
| Cantref | Cantref | The Cantref and Llanwenarth Citra wards of the community of Abergavenny | 1 |
| Chepstow Castle and Larkfield | Castell Cas-gwent a Larkfield | The Chepstow Castle and Larkfield wards of the community of Chepstow | 2 |
| Croesonen | Croesonnen | The Croesonen ward of the community of Llantilio Pertholey | 1 |
| Crucorney | Crucornau Fawr | The communities of Crucorney and Grosmont | 1 |
| Devauden | Devauden | The community of Devauden and the Llangwm and Llansoy wards of the community of Llantrisant Fawr | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dewstow | Llanddewi | The Dewstow ward of the community of Caldicot | 1 |
| Drybridge | Drybridge | The Drybridge ward of the community of Monmouth | 1 |
| Gobion Fawr | Gobion Fawr | The communities of Gobion Fawr and Llanarth | 1 |
| Goetre Fawr | Goetre Fawr | The community of Goetre Fawr | 1 |
| Grofield | Grofield | The Grofield ward of the community of Abergavenny | 1 |
| Lansdown | Lansdown | The Lansdown ward of the community of Abergavenny | 1 |
| Llanbadoc and Usk | Llanbadog a Brynbuga | The communities of Llanbadoc and Usk | 2 |
| Llanelly | Llanelli | The community of Llanelly | 2 |
| Llanfoist Fawr and Govilon | Llan-ffwyst Fawr a Gofilon | The community of Llanfoist Fawr | 2 |
| Llangybi Fawr | Llangybi Fawr | The community of Llangybi and the Gwernesney and Llantrisant wards of the community of Llantrisant Fawr | 1 |
| Llantilio Crossenny | Llandeilo Gresynni | The communities of Skenfrith and Whitecastle | 1 |
| Magor East with Undy | Dwyrain Magwyr gyda Gwndy | The Magor East and Undy wards of the community of Magor with Undy | 2 |
| Magor West | Gorllewin Magwyr | The Magor West ward of the community of Magor with Undy | 1 |
| Mardy | Y Maerdy | The Mardy, Pantygelli and Sgyrrid wards of the community of Llantilio Pertholey | 1 |
| Mitchel Troy and Trellech United | Llanfihangel Troddi a Thryleg Unedig | The communities of Mitchel Troy and Trellech United | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mount Pleasant | Mount Pleasant | The Mount Pleasant ward of the community of Chepstow | 1 |
| Osbaston | Osbaston | The Osbaston ward of the community of Monmouth | 1 |
| Overmonnow | Overmonnow | The Overmonnow ward of the community of Monmouth | 1 |
| Park | Y Parc | The Park ward of the community of Abergavenny | 1 |
| Pen Y Fal | Pen-y-fâl | The Pen Y Fal ward of the community of Abergavenny | 1 |
| Portskewett | Porthsgiwed | The community of Portskewett | 1 |
| Raglan | Rhaglan | The community of Raglan | 1 |
| Rogiet | Rogiet | The community of Rogiet | 1 |
| Severn | Hafren | The Severn and The Village wards of the community of Caldicot | 1 |
| Shirenewton | Drenewydd Gelli-farch | The communities of Mathern and Shirenewton | 1 |
| St Arvans | Llanarfan | The communities of St Arvans and Wye Valley | 1 |
| St Kingsmark | Llangynfarch | The St Kingsmark ward of the community of Chepstow | 1 |
| Town | Y Dref | The Town ward of the community of Monmouth | 1 |
| West End | West End | The West End ward of the community of Caldicot | 1 |
| Wyesham | Wyesham | The Wyesham ward of the community of Monmouth | 1 |

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39157-2

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1232